



## **Rhaglen Datblygu Gwledig - Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru 2014 I 2020**

### **Eich barn ar y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd: cyfweiliadau derbynwyr**

Rydych chi wedi cael y gwahoddiad hwn i gyfweiliad gan Dîm Ymchwil Dyfodol Cynaliadwy Llywodraeth Cymru yn y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi. Mae Tîm yr Is-adran Bwyd wedi gofyn iddynt wneud rhywfaint o ymchwil i effeithiolrwydd y cymorth a ddarperir drwy'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd.

Llywodraeth Cymru yw'r rheolydd data ar gyfer yr ymchwil, sy'n cael ei reoli gan ymchwilwyr o'r tîm ymchwil Dyfodol Cynaliadwy. Nod yr ymchwil yw cael barn a phrofiadau derbynwyr y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd a thynnu sylw at unrhyw faes lle mae angen gwelliannau. Amcanion yr ymchwil yw:

- mesur bodlonrwydd gyda'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd
- ceisio sylwadau ar feysydd sy'n gweithio'n dda
- ceisio sylwadau ar feysydd i'w gwella
- helpu i flaenoriaethu a datblygu cynlluniau cyllido yn y dyfodol.

Fel rhan o'r cyfweiliad, mae'n bosibl y byddwn yn gofyn i chi am wybodaeth bersonol (e.e. enw a rôl). Bydd hyn yn rhoi gwybodaeth gefndir ddefnyddiol i ni er mwyn helpu i gyd-destunoli'r ymatebion a roddir a strwythuro'r cyfweiliad. Defnyddir unrhyw ddata personol a gesglir yn y cyfweiliadau yn ystod cam casglu data'r ymchwil hwn yn unig.

Bydd ymchwilwyr o Dîm Ymchwil Dyfodol Cynaliadwy Llywodraeth Cymru yn cynnal ac yn dadansoddi'r cyfweiliadau.

Mae'r dewis i gymryd rhan yn gwbl wirfoddol ac mae modd i chi dynnu'n ôl o'r ymchwil ar unrhyw adeg. Fodd bynnag, mae eich barn a'ch profiadau o'r cynllun yn bwysig er mwyn llywio'r gwaith o'i wella.

Cyhoeddir yr ymchwil mewn adroddiad Ymchwil Gymdeithasol gan y Llywodraeth. Bydd yn cael ei gyhoeddi ar dudalennau gwe Llywodraeth Cymru erbyn mis Mai 2019.



## Hysbysiad preifatrwydd

### Data personol

Diffinnir data personol o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) fel 'unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn adnabyddadwy y gellir ei nodi'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy gyfeiriad at ddynodwr'. Cedwir cyfeiriadau e-bost derbynwyr y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd yn Uned Rheoli'r Cynllun. Mae swyddogion polisi'r Tîm Is-adran Bwyd wedi tynnu sampl o ddarpar ymatebwyr y cyfweliad o'r cyfeiriadau e-bost hyn. Fe'u cedwir mewn ffolder mynediad cyfyngedig.

Gallwch ddewis peidio â chael gohebiaeth gennym ynghylch cymryd rhan yn y cyfweliad, a chael eich atgoffa amdano, drwy anfon neges e-bost at anfonwr y gwahoddiad, a fydd yn dileu eich cyfeiriad e-bost o'r sampl. Mae'n bosibl y byddwn yn gofyn am wybodaeth bersonol (e.e. enw a rôl) yn y cyfweliad er mwyn helpu i roi cyd-destun i'ch ymatebion. Mae'n bosibl y byddwch chi hefyd yn dewis darparu data personol drwy eich ymatebion i gwestiynau'r cyfweliad. Os darperir data personol mewn unrhyw ymateb, rydyn ni'n tynnu'r wybodaeth hon ar ôl derbyn y trawsgrifiad o'r cyfweliad. Nid ydym yn ceisio eich adnabod chi na chysylltu eich hunaniaeth ag unrhyw un o'r ymatebion a ddarperir gennych chi. Bydd unrhyw recordiad o'r cyfweliad yn cael ei ddileu yn dilyn trawsgrifio. Bydd unrhyw ddata personol a ddarparwyd gennych yn ystod y cyfweliad yn cael ei dynnu o'r trawsgrifiad cyn y gwaith dadansoddi.

Os byddwch yn codi ymholiad neu gŵyn ac yn darparu data personol sy'n gofyn am ymateb, bydd yr ymchwilydd yn anfon y cais at y swyddog polisi perthnasol YN UNIG. Bydd yr ymchwilydd wedyn yn dileu'r wybodaeth hon o'r data ymchwil.

### Beth yw'r sail gyfreithlon ar gyfer casglu data'r arolwg?

Sail gyfreithlon prosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru.

Mae cyfweliadau fel hyn yn bwysig i Lywodraeth Cymru o ran casglu gwybodaeth a thystiolaeth weithredol am ei gallu i gyflawni blaenoriaethau'r llywodraeth. Mae Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 – Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru yn galluogi'r sector Bwyd a Diod i gyfrannu at nifer o amcanion yn [Ffyniant i Bawb](#) - strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru i gyflawni ei blaenoriaethau allweddol ar gyfer tymor y Cynulliad hwn - gan gynnwys cyflogadwyedd.

Mae'r cynllun hefyd yn fecanwaith wedi ei anelu at yrru newid ar gyfer nifer o'r nodau a restrir dan [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) \(2015\)](#).

### **Pa mor ddiogel yw unrhyw ddata personol a gyflwynir?**

Gyda'ch caniatâd, byddwn yn gwneud recordiad sain o'r cyfweiliad. Caiff y recordiad ei drawsgrifio gan yr ymchwilydd a gynhaliodd y cyfweiliad ychydig ddyddiau ar ôl y cyfweiliad, cyn cael ei ddileu.

Bydd y data personol a gesglir fel rhan o'r astudiaeth hon yn cael ei ddefnyddio yn ystod gwaith casglu data'r ymchwil hwn yn unig. Ni chaiff unrhyw wybodaeth bersonol adnabyddadwy o'r cyfweiliad hwn ei storio y tu hwnt i ychydig ddyddiau gan ymchwilydd Llywodraeth Cymru. Gan hynny, caiff unrhyw ddata a gasglwyd gan y cyfweiliad ei gadw mewn fformat dienw o gyfnod dadansoddi'r ymchwil ymlaen.

Bydd y data dienw o'r cyfweiliadau yn cael ei gadw o fewn ffeiliau cyfyngedig, lle mai dim ond ymchwilydd o'r tîm ymchwil Dyfodol Cynaliadwy fydd yn gallu cael mynediad. Wrth adrodd ar ymchwil, dim ond mewn ffordd gyfun a dienw y gwnawn hynny, fel na ellir adnabod cyfranogwyr.

### **Pa mor hir ydych chi'n dal gafael mewn unrhyw ddata personol a gyflwynir?**

O ran cadw data, bydd ymchwilydd o'r Tîm Ymchwil Dyfodol Cynaliadwy yn tynnu unrhyw wybodaeth bersonol adnabyddadwy a gyflwynir gan gyfweiliad ar ôl trawsgrifio'r cyfweiliad. Ni fyddwn yn cadw unrhyw wybodaeth bersonol o ymatebion cyfweiliad y tu hwnt i'r pwynt hwn.

### **Hawliau Unigolion**

O dan GDPR, mae gennych chi'r hawliau a ganlyn mewn perthynas â'r wybodaeth bersonol a ddarperir gennych fel rhan o'r gwerthusiad hwn:

- yr hawl i gael mynediad (gofyn am gopi o'ch data eich hun)
- yr hawl i unioni (cywiro gwybodaeth anghywir)
- yr hawl i wrthwynebu neu gyfyngu prosesu data
- yr hawl i ddileu
- yr hawl i gyflwyno cwyn i swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

## Rhagor o Wybodaeth

Os oes gennych chi gwestiynau pellach ynghylch sut bydd y data a ddarperir fel rhan o'r astudiaeth hon yn cael ei ddefnyddio gan ymchwilyr yn Llywodraeth Cymru, neu os ydych chi'n dymuno arfer eich hawliau gan ddefnyddio'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, cysylltwch â:

Kate Mulready (Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, Llywodraeth Cymru)

Ffôn: 0300 025 1481

Ebost: [kathleen.mulready001@llyw.cymru](mailto:kathleen.mulready001@llyw.cymru)

Gellir cysylltu â Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru yn:

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ

Ebost: [DataProtectionOfficer@llyw.cymru](mailto:DataProtectionOfficer@llyw.cymru)

Mae gennych chi hefyd yr hawl i gyflwyno cwyn am y modd y mae Llywodraeth Cymru wedi prosesu unrhyw wybodaeth bersonol a gyflwynwyd gennych drwy'r arolwg hwn gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd ar 029 2067 8400/0303 123 1113.